

Eglurwch leoliad y
stori.

Ym mha gyfnod
mae'r stori wedi ei
gosod?

Disgrifiwch un o'r
cymeriadau.

Ble roedd y
cymeriad yn byw?

Pwy yw'r prif
gymeriadau yn y
stori?

Beth ddigwyddodd
yn y stori?

Pa fath o
gymeriadau sydd yn
y stori?

Ail adroddwch
ddigwyddiad o'r stori.

Petaech chi'n cyfweld â'r
cymeriad neu'r awdur pa
fath o gwestiynau
byddech chi'n eu gofyn?

Pwy oedd y storiwr?
Sut gwyddoch chi?

Enwch eich hoff ran.
Pam rydych chi'n
hoffi'r rhan yna?

Beth rydych chi'n
meddwl fydd yn
digwydd nesa? Pam?

Pa gymeriad
byddech chi'n hoffi
cwrdd â fe/hi? Pam?

Hoffech chi ymweld
â'r lleoliad? Pam?

Beth byddai'n digwydd
nesa petai'r stori yn
parhau?

Sut mae'r prif gymeriad yn
teimlo ar ddechrau, canol a
diwedd y stori?
Pam mae'n teimlo fel hyn?
Ydy hyn yn eich synnu?

Gawsoch chi eich
rhyfeddu gan y diwedd?
Ai dyma roeddech chi'n
ei ddisgwyl? Pam?

Sut roeddech chi'n
meddwl y byddai'r
stori yn gorffen?

Beth yw prif
ddigwyddiad y stori?
Pam rydych chi'n
meddwl mai hwn yw'r
prif ddigwyddiad?

Ydy'r awdur wedi
gosod y stori mewn
trefn arbennig? Pam?

Sut mae'r testun
wedi'i drefnu?

Ydy'r awdur wedi
defnyddio amrywiaeth
o strwythurau
brawddeg?

Pam mae'r awdur yn
defnyddio brawddegau
byrion yn eich barn chi?

Mae'r awdur wedi
lliwddangos rhai
geiriau. Pam?

Pam mae'r awdur
wedi dewis y teitl
hwn i'r llyfr?

Ydych chi eisiau darllen
mwy o'r testun?
Sut mae'r awdur yn eich
denu i ddarllen ymlaen?

Chwiliwch am enghraifft
o ddisgrifio manwl gan
yr awdur. Beth sy'n
gwneud hyn yn
effeithiol?

Pa ran o'r stori sy'n
disgrifio'r lleoliad?

Oes ansoddeiriau da yn y
stori? Beth maen nhw'n ei
ddweud wrthym am y
cymeriadau/lleoliad?

Oes adferfau da yn y
stori? Beth maen nhw'n ei
ddweud am y
cymeriadau/lleoliad?

Oes berfau da yn y stori?
Beth maen nhw'n ei
ddweud am y
cymeriadau/lleoliad?

Chwiliwch am air dieithr.
Wrth ddarllen y frawddeg
fedrwch chi ddyfalu ei
ystyr?

Ydych chi'n gallu meddwl
am stori debyg?

Pam dewisiodd yr
awdur y lleoliad?

Beth sy'n gwneud hon yn
stori lwyddiannus?
Eglurwch.

Sut byddech chi'n
gwella'r stori?

Pa ran o'r stori oedd
fwyaf cyffrous?
Esboniwch.

Pa fath o arddull sydd
i'r stori hon? Sut
rydych chi'n gwybod?

Oedd rhan o'r stori yn
ddiflas? Esboniwch.

Pam mae'r awdur yn
ysgrifennu
brawddegau byrion?

Ydych chi'n gwybod am
stori eraill sy'n trafod y
testun hwn?

Ydych chi wedi cael
profiad tebyg i'r awdur?
Beth ddigwyddodd?

Sut byddech chi'n
teimlo yn yr un
sefyllfa?

Beth byddech chi'n ei
wneud yn wahanol i'r
cymeriad yn y llyfr?

Sut byddech chi'n
teimlo petaech yn cael
eich trin fel y
cymeriad yn y stori?

Oedd y stori yn eich
atgoffa o unrhyw
ddigwyddiad?

Ydych chi wedi darllen
stori arall gyda
chymeriadau tebyg?
Pa stori oedd hi a beth
ddigwyddodd?

Pa neges mae'r stori
yn ei chyfleu?

Ffuglen